

Cyngor

Neuadd y pentre. Nos Fawrth lawog ym mis Tachwedd. Paent pinc lliw past deintydd. Cadeiriau pren. Cadair eisteddfod a chomôd. Byrddau cinio ysgol – y rhai sy'n plygu. Matiau rwber y dosbarth Popsymudedd (bob pnawn Mercher efo Janice. Te a bisged wedyn, £3 y pen), collwch bwysau, trefnwch flodau, bring and bai, ffoniwch y Samariaid. Cyngor Trefnu Trefniadau Plwy' Llangornioeg sy'n cwrdd heno. Canol bydysawd pobol Llangornioeg, yw'r Cyngor Trefnu Trefniadau ond s'nelon ni ddim byd i wneud â phobol Llanglustioeg. Hen bobol ffroenuchel sy'n byw yn Llanglustioeg. A thai haf. A phobol sy'n gwerthu rhyw gerddi wedi'u crosho i bobol o bob un Staines a Slough a phob Chipping Camden a Chipping Norton yn y gwagle enfawr hwnnw rhwng adre a nunlle efo Birmingham yn y canol. Pobol Llangornioeg ydan ni ac mae ganddon ni faterion pwysig i'w trafod. Distawed. Gawn ni gael y pwyllgot yma i drefn os gwelwch yn dda?

Ymddiheuriadau. Materion yn codi. Y cyfarfod fel corwynt cylchog. Llaw i fyny. Llaw i lawr. Cofnodion. Dim pwrpas wrth gwrs. Mae pob dim sydd eisiau ei drafod eisoes wedi ei benderfynu. Sioe yw hyn. Sioe yw'r cyfan, a Margaret yw'r syrcafeistr, y prof megis mewn sioe Pynsh a Jiwdi, ar corff gwydn o slothiaid cysglyd, a meerkats brwdfrydig yw ei phypedau.

'Margaret mae gen i rywbeth rwyf fi eisiau ei ddweud.'

Mae rhywun yn traethu. Mae hi'n eu hanwybyddu. Rhyw wyriad o'i sgript. Dwy e ddim yn bwysig. Mae'r pwyllgor yma yn rhedeg yn ôl gweledigaeth Margaret. Mae hi'n penderfynu, ac mae hi'n dibynnu arnaf fi i gytuno.

Margaret yw'r cadeirydd. Fi yw'r ysgrifenydd. Margaret sy'n penderfynu. A fi sydd yn cofnodi – rhag ofn bod pobol yn cofio y pethau 'anghywir.'

'Eitem 7. Talu diolchiadau. Gwyn, Hywel Roberts, Julie, Sara. Mrs Parry-Hughes. A Gwen.' 'O fy Nuw. Gwen.'

Doedd Margaret ddim yn hoffi Gwen.

'Blodau. Dim byd llachar. Dim byd rhy angladdol. Rhywbeth chwaethus' oedd barn Mrs Penrhyn-Bay, a oedd yn darllen cylchgronau Byw yn Chwaethus gyda gymaint o arddeliad, nes ei bod yn gosod yr anchwaethus ymhlith gwehilion pennaf ein cymdeithas. 'Gwin i'r dynion. Tydi dynion ddim yn lecio blodau' ychwanegodd Gwilym.

'Dynion – gwin. Gwyn. Hywel Roberts. Merched – blodau. Julie, Sara, Mrs P-H' oedd penderfyniad Margaret yn ei llais mwyaf 'a dyna derfyn ar y mater.' Cofnodais y penderfyniad yn ufudd.

'A Gwen.'

Gwenodd Margaret fatha gaeaf garw.

'Mi ddwedais i Gwen. Mi ddwedais i Gwen yn do Eirlys?'

'Ym. Gallai ei ychwanegu hi.'

'Na, na aros funud Eirlys. Rhaid i ni ystyried hyn yn bropor.'

Roedd pwyslais ar yr ystyried a olygai 'cyrraedd penderfyniad gwahanol' a phwyslais ar y 'propor' a awgrymai nad oedd y pwyllgor wedi llawn gyrraedd y penderfyniad cywir – y penderfyniad 'roedd Margaret yn ddymuno.'

'Hywel Roberts – ia, Julie – ia, Mrs Parry-Hughes – ia, o mae hi wedi bod yn dda, er ei bod hi'n gwneud paned wael, ac mae ganddi'r mab yna.'

Edrychodd pawb ar eu papurau. Doedd neb yn hoffi crybwyll mab Mrs Parry-Hughes, a oedd yn byw, yn ôl y sôn, mewn fflat yn Llundain, ac 'roedd ganddo gocatw – ac wrth gwrs golygai hynny'n syth bin fod yna rhyw chwinc rywle yn y teulu.

'Ond mae hi wedi bod yn dda. Blodau iddyn nhw.'

'A gwin i'r dynion, tydi dynion ddim yn lecio...'

'Diolch Gwilym. Gwin i'r dynion. Ond am y lleill. Gwyn, Sara, a (oedi, fel petai blas yr enw braidd yn chwerw) Gwen. Tydi prynu anrhegion iddyn nhw ddim yn, wel tydi o ddim yn bropor. Mae nhw'n bobol fewnol – allan ni ddim prynu anrhegion i bobol fewnol.' 'Mae nhw wedi...'

'Mae nhw...'

'Na. Ddim yn addas.'

Cytunodd pawb, er eu bod yn anghytuno. Byddai dweud diolch, a phobol yn dweud diolch yn ôl ('o wir rwan, doedd dim isio i chi') wedi bod yn braf, ond doedd neb eisiau gwneud y peth anghywir, a neb eisiau dadlau efo Margaret. Dyw hi ddim yn hoffi i bobol ddadlau. Mae hi'n conffeidio'r pethau yma i mi. Rydan ni yn ffrindiau.

'lawn, ta. Symud ymlaen.

Mi symudon ni'n ein blaenau. Eitem. Eitem. Eitem ac eitem. Gwyntyllu, a gwyntyllu, a thindroi a gwyntyllu, nes bod pawb wedi cytuno efo Margaret, ac yna, yn y pen draw, fe gyrhaeddon ni'r Unrhyw Fater Arall, yr aobs, a phawb yn dechrau estyn eu cotiau a threfnu eu sgarffiau i gael mynd adre.'

'Un peth.'

Pawb yn sugo i lawr drachefn.

'Gwyn a Sara. Gwobrau arbennig.'

'Am beth.'

'Am fynd tu hwnt i'r galw' (wrth gwrs – onid oedd hynny yn amlwg Gwil-ym!).

'Own i'n meddwl ein bod ni ddim yn rhoi diolchiadau i bobol mewnol, fod o ddim yn 'bropor.''

Gwnaeth Margaret dwrw fatha twrci blin. Gallai Gwilym fod yn hynod o dwp weithiau.

‘Mae hyn yn wahanol.’

Cytunodd pawb. Unrhywbeth, unrhywbeth i gael mynd adre. Roedd pobol yn dychmygu cyrraedd adre a chanfod bod eu plant a’u wyrion yn hen bobol yn eu hoed a’u hamser, a bod mês man nawr yn dderwon cryfion.

Daeth noson y diolchiadau. Diolch i Gwyn. Potel o win a chymeradwyaeth. Diolch i Hywel Roberts. Cymeradwyaeth a gwin, gwin a chymeradwyaeth. Julie a Sara a Mrs ParryHughes. Blodau a blodau a blodau a sut mae’r cockatŵ?

Ac.

Yna roedd y bocs yn wag.

Chwech o bobol.

A phum anrheg.

Roedd Gwen druan yn mynd adre yn hollol waglaw.

Dim ond bryd hynny y cwmpodd y geiniog, fatha pelen mewn peiriant pinball. Roedd Margaret wedi cynllwynio hyn i gyd, wedi trefnu pob dim fel bod pawb – heblaw Gwen – yn cael diolchiadau. Roedd golwg ddryslyd ar Gwen, fel na pe bai yn llawn ddeall beth roedd hi wedi ei wneud o’i le, a byddai person caletach na Gwen wedi troi ar ei sawdl ac egluro yn syml ac eglur i Margaret lle yn union oedd twll ei thîn, ac i’r gan honno y gallai Margaret sticio ei phwyllgor cyn belled ag yr â.

Mae Gwen yn ffŵl.

Parhaodd i wenu yn frwdfrydig gan dybio rhaid bod camgymeriad wedi bod. Rhyw ddryswch yn y siop flodau. Byddai Margaret neu rywun yn bownd o egluro beth oedd wedi mynd o’i le. Byddai ymddiheuriad. ‘Gei di’r blodau rhywdro eto Gwen.’

‘Deffra Gwen. Tydi Margaret ddim yn dy hoffi di. Tu ôl i dy gefn mae Margaret yn dy ddywarded di ac yn dy wawdio di. Dyna pam chefaist ti ddim anrheg. Mi gynllwyniodd Margaret hyn i gyd, a thwyllor’r pwyllgor i gytuno.’

Sguthan!

Ac mi allwn i ddychmygu Gwen druan, fel rhyw glustog pinc, yn paratoi at heno, yn edrych ymlaen. Roedd y tusw o flodau (neu'r botel win – diolch Gwilym) yn draddodiad. Tro Gwen oedd hi i heno. Ac yna. Dim.

Dwi ddim yn hoffi Margaret weithiau. Dyw hi ddim bob amser yn berson neis iawn. A dwi ar fin dweud hynny wrthi.

'Fe wnest ti dro gwael â Gwen heno, Margaret. Beth am dusw o flodau? A rhyw ymddiheuriad.'

A dwi wrthi'n meddwl am beth i'w ddweud, a sut i'w ddweud o. Dwi ddim isio i Margaret deimlo fy mod i yn ei beirniadu, pan ddaw Margaret i mewn i'r neuadd.

'Eirlys!'

Mae hi yn fy nghofleidio fi. Am ryw reswm mae gen i ddarlun yn fy meddwl o foa constrictor welais i ar raglen David Attenborough y noson o blaen.

'Wyddwn i ddim beth baswn i yn wneud hebddot ti.' Dwi'n ceisio meddwl beth i'w ddweud.

'Ti wir yn help a ti wir yn gymorth.'

Wel, falle fod Gwen wedi disgwyl gormod. Mae o bach yn hunanol i ddisgwyl'ch bod chi'n haeddu anrheg.

Ond Gwen druan, yn ceisio meddwl beth wnaeth hi o'i le.

'Dwi ddim yn gwybod beth baswn i'n wneud hebddot ti.'

Mae Margaret yn ffrind i mi, ac mae'n amlwg fod heno wedi bod yn anodd o ran trefnu a ballu. Mi wnâi grybwyll y peth y tro nesaf. Falle fod o ddim mor bwysig.